# DATGANIADAU DULL LLYGODEN BENGRON Y DŴR

Nid yw'n bosib rhoi trwydded ar gyfer "datblygu" o dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad yn yr un ffordd ag y rhoddir trwyddedau o dan y Rheoliadau Cynefinoedd. Gellir rhoi trwyddedau ar gyfer 'diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd' e.e. adfer glan camlas. Fodd bynnag, nid yw pob datblygiad yn dod o dan y pennawd hwn.

Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad yn darparu amddiffyniad yn erbyn y troseddau uchod lle mae'r hyn a ddigwyddodd yn ganlyniad damweiniol i waith anghyfreithlon ac nad oedd modd yn rhesymol ei osgoi (10(3)(c)). Y cyngor gorau gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw i datblygwr wneud y gwaith mewn ffordd sy'n osgoi troseddu lle bo'n bosib a gofalu ei fod yn lleihau'r tebygolrwydd o drosedd lle nad yw'n bosib osgoi hynny. Gellir cyflawni hyn drwy baratoi a chymeradwyo datganiad dull gyda chytundeb swyddog lleol CNC a thrwy ymgynghori â'r Swyddog Rhywogaethau Rhanbarthol.

Dyma'r materion allweddol:

- Bod gwybodaeth arolygu briodol yn cael ei chasglu a'i darparu am boblogaeth llygod pengrwn y dŵr ar y safle.
- Bod yr holl fesurau yn cael eu cymryd cyn, yn ystod ac ar ôl datblygu i sicrhau eich bod yn tarfu cyn lleied â phosib ar y boblogaeth.
- Bod unrhyw waith a ddefnyddir gan lygod pengrwn y dŵr yn yr ardal yn cael ei gynnal gyda sylw priodol i ecoleg ac ymddygiad y rhywogaeth dan sylw.
- Bod yr ardal sydd ar gael i'r rhywogaeth ar ôl datblygu yn addas i gynnal y boblogaeth.
- Bod unrhyw waith yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau priodol fel argraffiad y ***Water Vole Conservation Handbook***.
- Bod unrhyw waith yn cael ei oruchwylio gan ecolegydd cymwys addas.
- Bod cyfathrebu rheolaidd gyda swyddog priodol CNC.
- Y dylai unrhyw waith ddod i ben yn syth os yr ystyrir bod y datblygiad yn cael effaith andwyol ar y boblogaeth.

**Lliniaru a datganiadau dull**

Gall gwahanol fathau o waith ar hyd glannau afonydd a thu hwnt effeithio ar lygod pengrwn y dŵr. Mae'r pwyntiau canlynol yn cynrychioli themâu allweddol i'w cofio

wrth greu cynlluniau lliniaru ar gyfer gwaith achos sy'n ymwneud â llygod pengrwn y dŵr.

- Asesiad cychwynnol o boblogaeth llygod pengrwn y dŵr trwy arolygon llinell sylfaen
- Effaith y gwaith arfaethedig ar **gynefin** llygod pengrwn y dŵr ar ôl y gwaith
- Yr effaith ar boblogaeth llygod pengrwn y dŵr yn ystod ac ar ôl y gwaith
- Yr effaith ar y cysylltiad gyda phoblogaethau llygod pengrwn y dŵr o fewn/ar draws y safle
- Cyflawni'r gwaith yn raddol (dros nifer o flynyddoedd)
- Defnyddio technegau symud neu eithrio i sicrhau nad yw llygod pengrwn y dŵr yn bresennol adeg y gwaith.
- Cynlluniau wrth gefn
- Rheoli a diogelu'r safle ar ôl y gwaith, yn y tymor byr a'r tymor hir
- Rhaglen fonitro ar ôl y gwaith (pryd a chan bwy)
- Creu neu adfer ardaloedd newydd o gynefin glan afon i wneud yn iawn am golli'r cynefin gwreiddiol yn cynnwys plannu llystyfiant addas. Dylai hyn fod ar gael cyn difrodi'r cynefin presennol.
- Symud poblogaeth llygod pengrwn y dŵr i safle arall (pan nad oes dewis arall)
- Addasrwydd safle/oedd derbyn a diogelwch y safle yn y tymor hir

Nodwch fod gan CNC swyddogaeth gynghori, gweithredu a rheoleiddio hefyd yn holl asesiadau amgylcheddol glannau afonydd.

Dylai Datganiad Dull ddisgrifio'n llawn sut mae'r trefniadau gweithredu sy'n effeithio ar boblogaeth llygod pengrwn y dŵr yn mynd i gael eu rhoi ar waith. Dylai gynnwys **mesurau osgoi** fel cynlluniau a gyflwynwyd i reoli a lleihau niwed neu effaith ar unrhyw lygoden bengrwn y dŵr o ystyried pa adeg o'r flwyddyn yw hi. Dylid cynnwys **cynlluniau wrth gefn** sy'n disgrifio'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai amgylchiadau na ellir eu rhagweld yn atal/llesteirio cydymffurfiaeth â'r datganiad dull.

Dylai Datganiad Dull gynnwys:

- Amser y gwaith
- Cyfnodau'r gwaith gyda map yn dangos y rhaglen waith

- Sut y bydd llygod pengrwn y dŵr yn cael eu heithrio o’r ardal
- Sut y bydd effaith y gwaith yn cael ei leihau
- Pwy fydd yn gwneud y gwaith (o dan drwydded, os oes angen)
- Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch
- Â phwy y bydd y gweithredwyr yn cysylltu am gyngor e.e. CNC, os oes angen
- Cyfeiriad at drwyddedau priodol

*Mae argraffiad y* ***Water Vole Conservation Handbook*** *yn rhoi cyngor helaeth ar reoli a lliniaru cynefinoedd, ac mae’n cynnwys nifer o astudiaethau achos..*

Canllaw yn unig yw’r esboniad hwn o’r gyfraith. Am ragor o fanylion, dylid cyfeirio at adrannau perthnasol y ddeddfwriaeth.